

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos Fercher, Medi 6^{ed} 2017 yn Neuadd Gymunedol Tycroes.

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

M Nicholas
S Lyle
G I Davies
S Evans
C Davies
B Davies
B Evans
M Davies
T Higgins
C Higgins
L Griffiths
A Evans
G Thomas

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr B Thomas, RC Roberts ac A Blackley.

Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 4 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Gorffennaf 6^{ed}.

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 5 – Materion yn codi o'r Cofnodion

Virgin Media - Cofnod rhif 6

Penderfynwyd ysgrifennu at Virgin Media ynghylch y problemau sydd wedi codi wrth osod y ceblau.

Cofnod rhif 10 - Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Roedd y Clerc wedi cadarnhau nad oedd cais am y grant uchod wedi'i gyflwyno hyd yn hyn.

Cofnod rhif 15 – Cyfarfod y Cynghorydd M Nicholas gyda Chadeirydd Cyngor Cymuned Llannon.

Roedd y Cynghorydd M Nicholas wedi cadarnhau nad oedd hi wedi bod yn bosibl cwrdd â'r Cynghorydd K Thomas hyd yn hyn, ond roedd wedi trefnu ei chyfarfod yn y dyfodol agos.

Cofnod rhif 6 – Llywodraethwr yn Ysgol Llanedi

Nodwyd bod y Cynghorydd Bob Roberts wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd felly mae angen penodi llywodraethwr newydd i'r ysgol.

Cofnod rhif 7 – Clwb Criced yr Hendy

Riportiodd y Clerc bod copi o'r cynllun arfaethedig i ail-ddatblygu'r Clwb Criced wedi'i gyflwyno i'r cynllunwyr er mwyn iddynt leisio barn. Gan fod y Cyngor wedi derbyn sylwadau cychwynnol y cynllunwyr, **penderfynwyd** bod y Cyngor yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y cynllun arfaethedig cyn gynted ag y bo modd. Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn cais i ystyried cymryd rôl rheolwr y prosiect, i gynnwys cyd-gysylltu'r cais am grant i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ac apwyntio a rheoli'r tîm cynllunio a'r contractwr. Cynghorodd y cyfarfod y byddai'n addas bod y Cyngor yn ystyried y mater hwn yn ei absenoldeb, ac felly gadawodd y cyfarfod ar yr adeg hon.

Penderfynwyd bod y Cynghorydd M Nicholas a'r Cynghorydd G Thomas yn gwneud trefniadau i gwrdd â'r archwilydd i drafod apwyntio'r Clerc, D Davies, i fod yn rheolwr prosiect ar y cynllun am y tâl a gytunwyd arno.

Cofnod rhif 8 – Cymorth Ariannol

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau am gymorth ariannol fel y'i derbyniwyd ac i anfon llythyr safonol at yr holl ymgeiswyr i'w hysbysu o bolisi'r Cyngor parthed â chymorth ariannol.

Cofnod rhif 9 – Adroddiadau Cyllid

Derbyniodd y Cyngor adroddiadau ar Incwm a Gwariant am y cyfnod cyfamserol.

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau.

Cofnod rhif 10 – Llofnodwyr Banc

Dywedodd y Clerc ei fod wedi wynebu peth anhawster ynghylch prosesu sieciau, a throsglwyddo arian rhwng cyfrifon y Cyngor. Achoswyd hyn oherwydd bod y banc wedi cofnodi llofnod anghywir ar gyfer y Clerc; roedd y banc wedi gwneud camgymeriad drwy gofnodi llofnod cyn Gynghorydd a oedd

yn meddu ar yr un enw a'r Clerc. Dywedodd y Clerc bod y camgymeriad hwn wedi golygu bod y banc wedi gwrthod dau siec. Nodwyd hyn.

Cofnod rhif 11 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd T Higgins ar y canlynol:

- Baw cŵn a goryrru yw'r ddau brif fater sydd wedi bod dan sylw dros yr wythnosau diwethaf.
- Ar hyn o bryd mae 'na Bapur Gwyn i drafod Llais y Claf, a gofynnodd i'r Cynghorwyr ystyried cyflwyno eu sylwadau ar y mater.
- Roedd hi wedi mynychu Diwrnod Agored y Gwasanaethau Brys a'r cyfarfod PACT diweddar.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd G Thomas ar y canlynol:

- Roedd wedi cwrdd â John McEvoy ynghylch parcio anghyfreithlon.
- Riportwyd bod caban wedi cael ei osod ar y cae pêl-droed ac mae'n ymchwilio ymhellach i'r mater.
- Mae angen agor Parc yr Hendy yn swyddogol, a dylai hyn gynnwys estyn gwahoddiad i Gartrefi Persimmon. **Penderfynwyd** awdurdodi Ward yr Hendy i drefnu seremoni agoriadol.
- Mae 'na broblem barhaus gyda pharcio yn Heol Y Parc. Mae'n astudio'r opsiynau posib ar gyfer parcio i'r preswylwyr.

Cofnod rhif 12 – Cynhwysydd – y Clwb Rygbi

Nodwyd bod taliad yswiriant wedi'i wneud am y caban a gollwyd.

Penderfynwyd bod yr arian hyn yn cael ei glustnodi i brynu caban newydd i'r Clwb Rygbi.

Roedd y Cynghorydd BD Davies wedi datgan diddordeb yn yr eitem uchod, a ni chymerodd unrhyw ran yn y trafodaethau ynghylch yr eitem.

Cofnod rhif 13 – Hywel Dda – y Sgwrs Iach

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd B Evans ar gyfarfod diweddar a gynhaliwyd gyda'r awdurdod iechyd ynghlyn â'r newidiadau arfaethedig i drefniant gwasanaethau, yn benodol y mater o ddarparu gwasanaethau traws-ffiniol.

Cofnod rhif 14 – y Cynghorydd B Roberts

Penderfynwyd anfon llythyr at y Cynghorydd Roberts, yn diolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor Cymuned.

Cofnod rhif 15 – Adolygu Trefniadau Etholiadol

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad oddiwrth y Comisiwn Ffiniau i fynychu cyfarfod ar Fedi'r 20^{fed} i drafod adolygiad o'r trefniadau etholiadol yn Sir Gaerfyrddin. **Penderfynwyd** bod y Cyngorydd M Nicholas yn mynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

Cofnod rhif 16 – Prydles Clwb Rygbi yr Hendy

Yn dilyn ymholiad a dderbyniwyd oddiwrth y Cyngorydd I Davies, **penderfynwyd** darparu iddo gopi o'r brydles ar gyfer cae chwarae Clwb Rygbi yr Hendy.

Cofnod rhif 17 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

- S/35777 Defnydd tir i leoli carafan at bwrpas preswyl i'w ddefnyddio gan weithiwr Amaethyddol (cais ôl-weithredol) ar dir o'r enw Old Stable yard, Heol Troeon Bach, Tycroes, Rhydaman. D/O yr asiant.
- S/35771 Storfa ardd allanol yng nghefn yr eiddo / garej (cais ôl-weithredol) yn 54 Rhodfa'r Wiwer, yr Hendy. Mr Andrew Reynolds.
- S/34537 Adeiladu 8 tŷ, ynghyd â'r mynedfeydd i gerbydau ac ar droed cysylltiedig, parcio ceir, tirlunio, draenio a datblygiadau ategol eraill ar dir ar ochr ddwyreiniol Heol Bronallt, yr Hendy, Llanelli. Datblygiadau Greenway Homes.
- S/35778 Tŷ annedd sengl a garej ar dir oddiar Heol Ddu a Heol Pontarddulais, Tycroes. Mr L Jones.
- S/35876 Adeiladu ysgubor amaethyddol ar dir o'r enw Old Stable yard, Heol Troeon Bach, Tycroes. J G Hale Construction Ltd.
- S/35845 Cais Cynllunio Materion a Gedwir yn Ôl rhif S/29388 – dau dŷ annedd arfaethedig (golwg, dull mynediad, tirlunio, cynllun, graddfa) ar dir y tu ôl i 5, 7 a 9 Heol y Fforest, Pontarddulais. Robert Hopping.

- S/35928 Gosod ffens ddiogelwch 2 metr o uchder uwchben y wal ffin bresennol 1.5 metr o uchder ar hyd rhan o ffin yr ysgol gyda'r llwybr troed presennol yn Ysgol Gynradd Sirol Tycroes, Heol Pontarddulais, Tycroes. Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Caerfyrddin.
- S/35927 Tŷ annedd amnewid (ail-gyflwyniad o gais S/34585 a wrthodwyd ar 16/12/16) ar dir yn Fferm Tyn Y Waun, Llannon. Mr A a Mrs L Thomas.
- S/35963 Tŷ annedd sengl arfaethedig a gwaith cysylltiedig – diwygiad i gymeradwyaeth y Cais Cynllunio Materion a Gedwir yn Ôl rhif S/33358 ar dir ger 54 Heol y Fforest, Pontarddulais. Mr Thomas Balfry.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.
Ni ddaeth unrhyw rai i law

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd
Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd
Ni ddaeth unrhyw rai i law

Cofnod rhif 18 – Gohebiaeth Gyffredinol
Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion: -

Awdur	Pwnc
Capel Libanus	Llythyr o ddiolch am gymorth ariannol
Rhys Harries	Llythyr o ddiolch am gymorth ariannol
Claire Dwyer	Llythyr yn cwyno ynghylch y MUGA
Neuadd Efengylaidd Tycroes	Llythyr o ddiolch am gymorth ariannol
Llywodraeth Cymru	Gwahoddiad i wneud cais am gyllid er mwyn ystyried gwneud trefniadau clystyru

Daeth busnes y Cyngor i ben am 8.30 yh

Llofnod..... Dyddiad
Cadeirydd